**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

28 Ionawr 2025

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Rhagfyr, a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 13 Rhagfyr 2024.

Mae'r atebion i bob un o'ch cwestiynau wedi'u nodi, yn eu tro, yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A - Ymateb**

Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Cyflawni

Wrth inni nesáu at bum mlynedd ers cyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi Cynllun Cyflawni a fydd yn nodi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd yn nodi lle y gallwn gael yr effaith fwyaf ar y llwyfan byd-eang. Rwy'n bwriadu rhannu hyn gyda'r Pwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn ogystal â rhannu'r ddogfen, byddwn yn hapus i ofyn i'r swyddogion roi briff technegol i'r Pwyllgor cyn rhyddhau'r Cynllun Cyflawni.

Cynnydd yn erbyn y camau sy'n cefnogi'r Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig

Fel yr eglurais o'r blaen, mae'r byd wedi newid yn ddramatig ers lansio'r Strategaeth Ryngwladol. Rydym wedi wynebu newidiadau geowleidyddol sylweddol, pandemig byd-eang, a rhyfel yn Ewrop. Mae'r digwyddiadau hyn wedi golygu bod angen dull hyblyg ac addasol gan y Llywodraeth a'r Strategaeth ei hun. O ganlyniad i hynny, nid yw rhai o'r camau a amlinellir yn nogfen 2020 bellach yn berthnasol nac yn ymarferol ac rydym wedi symud ymlaen mewn meysydd na chafodd eu nodi bum mlynedd yn ôl, megis diplomyddiaeth chwaraeon, a chydraddoldeb rhywiol yn Affrica Is-Sahara hefyd. Mae'r prosiectau hyn i rymuso menywod wedi cyflawni effeithiau sy'n newid bywydau: darparu gwell bywoliaethau i fenywod, hyrwyddo'r broses o integreiddio rhywedd i ymladd effeithiau newid hinsawdd, herio arferion FGM, trais ar sail rhywedd, rhwystrau i urddas mislif, a helpu merched i gwblhau eu haddysg.

Ni chrybwyllir mewnfuddsoddi yn fanwl yn y Strategaeth Ryngwladol; fodd bynnag, ers ei chyhoeddi, mae canlyniadau mewnfuddsoddi yn dangos y bu mwy na 215 o brosiectau buddsoddi gan gwmnïau tramor, sydd wedi creu, cadw a/neu ddiogelu mwy nag 20,000 o swyddi. Yn 2020, 1,315 oedd nifer y cwmnïau tramor yng Nghymru, tra bod y ffigurau diweddaraf sydd ar gael (2023) yn dangos bod Cymru'n gartref i fwy na 1,480 o gwmnïau tramor, sy'n cyflogi bron i 175,000 o bobl ac yn dangos hyder yng Nghymru fel lle i wneud busnes.

Fel y soniais yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, fy mlaenoriaeth yw bod swyddogion yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ymarferol yn hytrach nag adolygu neu ailysgrifennu strategaethau presennol. Yn hytrach, byddwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr sy'n dangos cynnydd clir yn erbyn tri amcan craidd y strategaeth ryngwladol.

Byddwn yn adrodd am allbynnau economaidd mesuradwy y Strategaeth Ryngwladol fel arfer. Cyhoeddir canlyniadau mewnfuddsoddi yn flynyddol gan yr Adran Busnes a Masnach, tra bydd ystadegau allforio yn cael eu rhyddhau bob chwarter gan CThEF. Yn ogystal â'r allbynnau mesuradwy hyn, mae ein hadroddiad blynyddol yn darparu gwybodaeth am y meysydd sy'n anodd eu mesur, yn enwedig trwy dynnu sylw at lwyddiant mentrau penodol trwy ddefnyddio astudiaethau achos.

Wrth ei natur, mae'n anodd mesur y gwaith o godi proffil Cymru a'i lleoli fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Serch hynny, byddwn yn blaenoriaethu hyrwyddo gwaith cymell tawel Cymru, gan ei fod yn gwella enw da Cymru, yn meithrin ewyllys da, ac yn creu cyfleoedd gwerthfawr, gyda manteision hirdymor sy'n drech na'r heriau hyn. Mae gennym flwyddyn bwysig iawn o'n blaenau wrth i ni ddathlu ac adeiladu cysylltiadau rhwng Cymru a Japan, a hefyd nodi 'troeon cyntaf erioed' gan gynnwys Tîm Pêl-droed y Menywod yn

chwarae ym Mhencampwriaethau Ewrop yn y Swistir a chynnal uwchgynhadledd fuddsoddi yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod pum Cynllun Gweithredu yn sail i'r Strategaeth Ryngwladol, a bydd swyddogion yn parhau i adrodd ar y Cynlluniau Gweithredu hyn drwy ein Hadroddiad Blynyddol, fel y maent wedi'i wneud hyd yma.

Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol ar draws y llywodraeth

Yn ogystal â'r Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, y prif gyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am gyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau yn y Strategaeth yw:

- Busnesau a Rhanbarthau
- Cymunedau a Chydraddoldeb
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Yr Economi Gylchol
- Addysg
- Ynni a Newid Hinsawdd
- Iechyd
- Marchnata a Brand
- Dyfodol Cynaliadwy
- Polisi'r Gymraeg

Blaenoriaethau ar gyfer adolygiad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)

Roedd y blaenoriaethau cychwynnol a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 20 Mehefin yn cynnwys:

- Yr angen am gytundeb ar faterion milfeddygol a iechyd planhigion (SPS).
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau.
- Yr angen am well trefniadau ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol.
- Archwilio opsiynau i ailymuno â rhaglenni'r UE fel Erasmus ac Ewrop Greadigol.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, rydym hefyd wedi nodi sawl maes ychwanegol y gallai trafodaethau ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys:

- Sicrhau cadw Digonolrwydd Data'r UE ar gyfer busnesau o Gymru sy'n masnachu gyda'r UE.
- Ceisio Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol (MRAs), yn enwedig ar asesiadau cydymffurfiaeth i leihau unrhyw ddrwgdeimlad o ran masnach.
- Mynd i'r afael â materion allforio sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (LBMs)
- Trafodaethau ynghylch rheolau tarddiad er mwyn galluogi busnesau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi mwy a masnachu'n ddi-dariff.
- Trefniadau masnachu trydan effeithiol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a minnau wedi cwrdd â Llywodraeth y DU ac wedi nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Briff technegol Llywodraeth Cymru ar adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)

Nid yw'r UE a'r DU eto wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer adolygiad gweithredu'r TCA ac nid oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal. Felly, ar hyn o bryd, ychydig iawn y gallwn ni friffio'r Pwyllgor yn ei gylch.

Y disgwyliadau yw y bydd yr adolygiad o'r TCA yn canolbwyntio'n bennaf ar adolygiad o weithrediad y cytundeb presennol. O'r herwydd, y disgwyliadau yw ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i destun y cytundeb. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn rhoi'r briff technegol i chi, yn seiliedig ar gylch gorchwyl yr adolygiad, unwaith y bydd yn hysbys.

Gwerthusiad o'r flwyddyn 'Cymru yn Ffrainc'.

O'r cychwyn cyntaf, bwriad gwerthusiad y flwyddyn Cymru yn Ffrainc oedd gweithredu fel dogfen fewnol i lywio a pharhau i wella ein dull o ran yr ymgyrchoedd ‘Cymru yn...’, ond rwyf wedi gofyn i fy swyddogion ymdrin â chanfyddiadau'r adroddiad fel rhan o'r briff technegol i'r Pwyllgor ar y Cynllun Cyflawni.

Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gyfer blwyddyn 'Cymru Yn'... 2026

Rydym yn mynd trwy gyfnod o drafodaethau cynyddol gyda'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) ar ystod o faterion rhyngwladol gan gynnwys ein blynyddoedd 'Cymru a...'. Mae'r berthynas hon yn bwysig i alinio ein gweithgarwch rhyngwladol ac archwilio sut y gall yr FCDO gefnogi amcanion rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae swyddogion wrthi'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar Gyngor Cymell Tawel a Strategaeth Addysg Ryngwladol Llywodraeth y DU, gan sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu cynrychioli'n effeithiol yn y ffrydiau gwaith hyn.

Cynlluniau ar gyfer blynyddoedd 'Cymru yn...' gan gynnwys lleoliadau yn y dyfodol

Mae'r gwerthusiadau o flynyddoedd "Cymru yn..." yn chwarae rhan sylweddol o ran llunio'r gwaith cynllunio a'r rhaglennu ar gyfer mentrau yn y dyfodol. Mae pob blwyddyn yn wahanol, ac mae'n parhau i fod yn fenter gymharol newydd. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi dysgu llawer iawn gyda blynyddoedd cynnar yr Almaen a Chanada yn cael eu heffeithio gan bandemig Covid-19. Gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg, rydym yn dysgu ac yn mireinio ein dull gweithredu bob blwyddyn, gan adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd hyd yn hyn. Mae gwerthusiadau yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r broses hon, gan ein helpu i addasu a gwella dros amser. Mae enghraifft o sut mae canfyddiadau’r gwerthusiadau wedi dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer ein blynyddoedd a elwir bellach yn 'Cymru a...' yn cynnwys y newid o'r gair 'yn' i ddefnyddio 'a', i amlygu'r berthynas rhwng y ddwy wlad.

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop

Mae rôl y Cynrychiolydd Ewropeaidd yn unigryw ei natur ac mae wedi cael ei dathlu gan Wledydd Datganoledig eraill, a chymheiriaid rhyngwladol ehangach, fel ffordd arloesol o hyrwyddo buddiannau Cymru ac ymgysylltu â sefydliadau a rhwydweithiau Ewropeaidd. Rwy'n falch o gyhoeddi y bydd Derek yn parhau yn y rôl hon tan fis Ionawr 2026.